# Y Dinesydd

Ebrill 2011 Rhif 356 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

# Ar Drywydd y Diafol...




Llwyd Owen gyda'i ferch Elian yn dal copi o'i nofel newydd 'Un Dinas Dau Fyd' yn ystod y lansiad yn y Gwdihŵ, Caerdydd

## Lleisio Barn

Bu dros 150 o ddisgyblion o ysgolion uwchradd Cymraeg ar draws de ddwyrain Cymru yn cwrdd ar y 25ain o Fawrth yn Neuadd y Ddinas Caerdydd er mwyn creu maniffesto fydd yn amlinellu'u synaidau ar gyfer y dyfodol. Bydd y ddogfen, sy'n cael ei dargedu at Lywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol, yn crisialu barn pobl ifanc ar sut i wella'r gwasanaeth cyhoeddus ym meysydd gwleidyddiaeth, cyfryngau, diwylliant, iaith, addysg a chyflogaeth.

Dywedodd cyd-drefnwyr y digwyddiad Indeg Williams a Cai Wilshaw: 'Byddwn yn rhy ifanc i bleidleisio yn etholiad y Cynulliad eleni ond mae gennym farn cryf ar y fath o gymdeithas hoffwn fyw ynddi. Mae'r gynhadledd yma yn siawns i bobl ifanc fel ni i wneud cyfraniad tuag at y ddadl fawr.

*Gweddil y stori ar dudalen 2*

Mae awdur o Gaerdydd wedi mynd ar drywydd y diafol ym myd teledu Cymraeg, gan amlygu'r rhagrith a'r twyll sy'n gymaint ran ohono. Ac mae'n gwneud hynny am yr ail waith yn ei yrfa.

Union bum mlynedd yn ôl mi greodd Llwyd Owen 'ddaeargryn' yn y byd cyhoeddi Cymraeg wrth ryddhau ei nofel gyntaf, Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau am gymeriadau'n gweithio mewn cwmni teledu gyda boy-band didalent yn chwarae rhan allweddol. Disgrifiwyd y nofel fel un 'athrylithgar', 'arloesol' ond llawn bratiaith a budreddi, ac ni enillodd Wobr Goffa Daniel Owen yn yr Eisteddfod Genedlaethol am nad oedd safon yr iaith yn plesio'r beirniaid.

Bum mlynedd yn ddiweddarach ac mae Llwyd wedi ennill Llyfr y Flwyddyn, wedi cyhoeddi pum nofel ac yn dad i ddau o blant, ond mae hefyd wedi penderfynu ysgrifennu dilyniant i'w nofel gyntaf sy'n olrhain hanes diweddaraf Emlyn Eilfyw-Jones a'i ymdrechion aflwyddiannus i greu ffilm gyffrous gyda'i gwmni teledu Akuma, a hynny ddeng mlynedd ers i Luc Swan ladd y boy-band Fflach! ar ddiwedd y nofel ddiwethaf.

Ceir yr un elfennau diawledig yma ag oedd yn ei nofel gyntaf a cheir stori gofiadwy am ragrith a thwyll mewn cwmni teledu annibynnol – sy'n cael ei ymgorffori ym mywyd Emlyn Eilfyw-Jones. Ond mae llawer mwy i'r nofel na hynny.

Meddai Llwyd Owen:"Roedd Emlyn Eilfyw-Jones yn gymeriad rhy ddiddorol a diawledig i beidio a dychwelyd ato rhywbryd, ond mae ei stori ef yn datblygu ochr yn ochr yn y nofel hon â hanes Rodney Joyce, dyn ifanc o Drelái sydd yn brwydro i oroesi bywyd ac yn ysu am gyfle i lwyddo ym myd y cyfryngau. Wrth reswm, mae llwybrau'r ddau gymeriad ar fin gwrthdaro a nid yw bywyd yr un ohonynt yn mynd i fod yr un peth ar ddiwedd y stori hon..."

Ceir sawl cyfeiriad at argyfwng presennol S4C yn y nofel ac mae hefyd yn cyffwrdd a'r holl ansicrwydd sy'n rhan o'r byd teledu ar hyn o bryd. Disgrifiodd yr awdur Dewi Prysor y nofel fel "nofel feistrolgar ac ysgytwol. Aiff Un Ddinas Dau Fyd â chi ar daith droellog trwy emosiynau, breuddwydion a chwantau mwyaf greddfol y ddynolryw – lle mae'r annisgwyl yn aros ar ddiwedd pob stryd a rhywbeth erchyll yn llechu rownd bob cornel."

Manylion cyswllt Llwyd Owen llwyd.owen@trosol.co.uk, 02920628985

## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
Alun Williams

Golygydd y rhifyn nesaf:
Richard Lewis
Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn
Mis Mai erbyn 20 Ebrill at:
5 Station Terrace, Llanbedr-y-Fro
Bro Morgannwg, CF5 6LU
01446 760913 neu 07518997717
richardllanbedr@gmail.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Y Calendr**
Dr E. Wyn James,
16 Kelston Rd, Caerdydd CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan,
24 Cwm Gwynlais Tongwynlais,
Caerdydd, CF157HU
ceri33@btopenworld.com
029 20813812

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones,
22 Blaen-y-Coed, Radur,
Caerdydd, CF15 8RL
07985 174997

Cyhoeddir Y Dinesydd gan
Bwyllgor Y Dinesydd

Fe'i cysodir gan Siriol Haf Griffiths
a'i argraffu gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

## Ardal Fusnes i'r Brifddinas

Cafodd cynlluniau ar gyfer parc busnes 140 acer yn agos at ganol Caerdydd eu datgelu yn y gobaith o ddenu busnesau a chwmnïau yno. Dywedodd arweinwyr y cyngor eu bod yn gobeithio y bydd yr ardal, a fydd yn cael ei hadnabod fel Ardal Fusnes Caerdydd, yn derbyn hyd at £60 miliwn o arian cyhoeddus. Maen nhw hefyd am geisio codi dros £100 miliwn drwy'r sector breifat.

Mae'r cynlluniau yn cynnwys canolfan gynadleddau; gofod 4 medr sgwâr ar gyfer swyddfeydd a gorsaf fysiau newydd ar safle gerllaw yr orsaf drenau. Dywed y cyngor y byddai'r orsaf fysiau newydd yn rhoi hwb i'r orsaf drenau ac yn rhan "integreiddiedig" o drafnidiaeth i'r ddinas.

Mae'r ardal dan sylw yn ymestyn o Fae Caerdydd, drwy Sgwâr Callaghan i'r orsaf drenau.
Dywedodd arweinydd y cyngor, Rodney Berman, bod hyn yn "gychwyn newydd economaidd" i'r ddinas ac yn "hwb i economi Cymru". Ychwanegodd y Cynghorydd Neil McEvoy, dirprwy arweinydd y cyngor, bod 'na alw am ddatblygiad o'r fath wedi bod yn y ddinas ers blynyddoedd.

"Fe fydd graddedigion yfory yn cael mwy o ddewis i aros yng Nghaerdydd ac ennill cyflogau da."

Dywedodd y cyngor sir eu bod yn ystyried cyfrannu £39 miliwn at y cynllun a'r £21 miliwn arall yn dod gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn ôl David Russ, rheolwr gyfarwyddwr Siambr Fanach De Cymru, "Mae angen system drafnidiaeth integredig fel bod pobol yn gallu cyrraedd canol y ddinas yn hawdd o'r cymoedd fel y gallan nhw elwa a chyfrannu at y cyfleoedd newydd".

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

SIOP Y FELIN, 54 - 60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
CABAN, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
PETHAU BYCHAIN, 20 Stryd Bute, Bae Caerdydd, CF10 5BZ
DERI STORES, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
VICTORIA FEARN GALLERY, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
HALLS, 44, Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
HALCYON DAZE, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
SIOP LYFRAU WINDSOR, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
FOOD FOR THOUGHT, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
COFFEE LOUNGE, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
VEG VENDOR, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

*Yn dilyn o dudalen 1*

Yn y gynhadledd, bu siaradwyr megis yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas (Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru), Golygydd Gwleidyddol BBC Cymru Betsan Powys, Darlledwraig arbennig Beti George, Ymgynghorydd Addysg Geraint Rees, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru Efa Gruffydd Jones a Prif Swyddog Menter Caerdydd Sian Lewis. Rydym wedi derbyn cefnogaeth ariannol hael oddi wrth y 'Children and Young People's Partnership'.

Am fwy o wybodaeth ebostiwch:
indeg.williams@plasmawr.cardiff.sch.uk
cai.wilshaw@plasmawr.cardiff.sch.uk
neu ffoniwch 02920 405 499

# Colofnydd y Mis

## Norman Williams

### Y Dinesydd - Y Papur Bro Cyntaf

Yn hytrach na dilyn y llwybr gyrfaol arferol ar ddiwedd cyfnod coleg (yn 1970) sef mynd i ddysgu, penderfynais geisio am swydd gyda Gwasg y Brifysgol yng Nghaerdydd. Rhan o'm dyletswyddau yn y Wasg oedd gweinyddu Grant y Llywodraeth i noddi cyhoeddi llyfrau Cymraeg a dyma pan sylweddolais am y tro cynta pa mor druenus o isel oedd gwerthiant llyfrau Cymraeg. Eithriad oedd i lyfr gweddol boblogaidd werthu mwy na mil o gopiau.

Sylwais yn yr un cyfnod mai dim ond llond dwrn o gopiau o'n prif gylchgronau ar y pryd werthwyd yn siopau llyfrau'r Brifddinas, lle'r oedd 20000 o Gymry Cymraeg yn byw. Y canlyniad anorfod oedd sylweddoli pa mor ddychrynllyd o isel oedd y nifer ddarllenai Gymraeg yn rheolaidd trwy Gymru benbaladr a bod y sefyllfa'n argyfyngus. Fel un a fagwyd mewn cymdeithas glos yng Ngwynedd roedd ceisio dygymod a chymdeithas wasgaredig Caerdydd yn sialens ac roedd mawr angen rhyw gyfrwng i ddod a'r Cymry ynghyd.

Yn rhyfedd ddigon roedd yna eraill yng Nghaerdydd ar y pryd yr un mor bryderus am y sefyllfa ac un yn enwedig sef yr ysbrydoledig Dr Meredydd Evans. Galwodd Mered gyfarfod i drafod y posibilrwydd o gyhoeddi papur i wasanaethu Caerdydd. Dyna fan cychwyn Y DINESYDD ac imi fel ei Olygydd cynta,rai blynyddoedd o lafur caled ond pleserus..

Treuliwyd misoedd yn ymchwilio i'r maes gyda Mered yn gyfrifol am godi miloedd o arian a thynnu unigolion profiadol mewn agweddau megis dosbarthu a hysbysebu at ei gilydd. Y penderfyniad pwysicaf oedd i beidio gwerthu'r papur oherwydd natur wasgaredig poblogaeth Gymraeg y Brifddinas a'r maestrefi ac er mwyn cyrraedd y mwyafrif posib o ddarllenwyr.

Ym mis Ebrill 1973 - blwyddyn ar ol ein cyfarfod cyntaf - cyhoeddwyd a dosbarthwyd 5000 o gopiau o rifyn cyntaf Y DINESYDD a bu'r ymateb iddo'n galonogol iawn. Trafodwyd y datblygiad unigryw hwn yn y wasg ac ar y teledu a'r radio - gan gynnwys cyfweliad reit bigog efo Vincent Kane!!

Gofynodd un sinig arall o newyddiadurwr os mai papur'perforated'oedd Y Dinesydd i fod.

Denodd erthygl yn y rhifyn cyntaf am y bwriad i gau un o brif gapeli Cymraeg canol Caerdydd ymateb ffyrnig oddiwrth Saunders Lewis.

Yr hyn oedd yn hollol annisgwyl fu'r ymateb gafwyd o wahanol rannau o Gymru a buan yr ymddangosodd papurau bro eraill ledled y wlad. Ychydig flynyddoedd ar ol cyhoeddi'r rhifyn cynta' o'r Dinesydd cynyddodd y nifer o bapurau bro i tua hanner cant a hynny ymhob rhan o Gymru.

Bellach dosbarthu Eco'r Wyddfa yn ein cornel ni o'r Waunfawr ydi fy unig gysylltiad gyda phapur bro ond trist braidd ydi cymharu gwerthiant Eco'r Wyddfa o 2000 o gopiau gyda'r 800 a werthir o'r Dinesydd. Ond mae'r ffaith bod y papur yn dal i fodoli 38 o flynyddoedd ar ol cyhoeddi'r rhifyn cyntaf yn dysteb i waith caled llu o unigolion brwdfrydig dros y blynyddoedd a diolch amdanyn nhw gan y byddai tranc Y Dinesydd yn ergyd seicolegol drom i weddill papurau bro Cymru.

# Pasport



**Be ydy dy enw di?**
Luned Jones

**O le wyt ti'n dod yn wreiddiol?**
Casllwchwr, ger Abertawe

**Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?**
Llandaf

**Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?**
Ddes i i Gaerdydd yn 1997 i fynd i'r Brifysgol yma, wedyn ces flwyddyn yn gweithio yn America a dychwelyd yma yn 2001.

**Beth fuest ti'n ei wneud cyn[neu]ar ôl symud yma?**
Ddes i i Gaerdydd yn 1997 i astudio Cymraeg a Hanes yn y Brifysgol, felly tyfu fyny oeddwn i'n neud cyn dod yma! Wedi symud yma dwi wedi cael gradd, mynd bant i weithio yn Disney World yn Florida am flwyddyn ac wedyn ers 2001 wedi ailsefydlu yn y brifddinas ac wedi gweithio i Academi, Bwrdd yr Iaith a bellach yn gweithio i Oxfam Cymru.

**Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?**
Dwi'n hoffi cadw'n heini ac ar fin rhedeg fy ail 10k eleni, a dwi hefyd yn mynd i ddosbarthiadau bootcamp sy'n cael eu cynnal mewn gampfa yn y bae ar nos Fercher a nos Wener ac yng nghaeau Llandaf ar fore sadwrn – law neu hindda! Dwi hefyd yn aelod o Gordydd ac yn mwynhau yr ymarferion a'r achlysuron cymdeithasol gyda'r criw bywiog hynny.

**Be sy'n gwneud i ti chwerthin?**
Mewn anghredinedd - gwelidyddion aneffeithlon! O ddifri, mae gen i griw o ffrindie ffraeth a doniol ac mae fy nith a nai, Dewi a Mair, yn codi gwên bob tro.

**Beth sy'n dy wylltio di?**
Gwleidyddion aneffeithlon, anghyfiawnder a thrachwant. Dwi'n grac iawn am bonysys y bancwyr. Mae digon yn y byd i bawb, ond mae'n anhygoel sut mae pwer pobl farus yn golygu nad yw hi'n fyd teg.

# Llandaf neu Llandaff?

Bydd rhai ohonoch wedi darllen yn ddiweddar am ffrae sydd wedi datblygu draw yn ardal dinas Llandaf ar ôl dadorchuddiad arwyddion newydd a defnyddiwyd y fersiwn Saesneg o'r Llandaf sef 'Llandaf'. Arweiniodd hyn at yr arwyddion cael eu tynnu lawr gan Gyngor Caerdydd, ar ôl derbyn 16 o gwynion gan y cyhoedd.

Wrth gwrs beth ddigwyddodd, wrth ddarllen yr adroddiad, oedd camgymeriad neu gamddealltwriaeth rhwng y Gymdeithas Llandaf a'r Cyngor wrth gytuno pa fersiwn o'r enw yw defnyddio ar yr arwyddion.


Be sydd yn drist yw sut mae ffrae wedi datblygu mewn i ffrae rwystredig arall am ddefnyddio arwyddion dwyieithog o gwmpas Caerdydd.

*Rhagor ar dudalen 7*




**CHWILIO AM BLASTRWR?**

Am amcanbris
ffoniwch Rhiannon ar:
07859 919477



Ioan, Jessica, Odin ac Ella - aelodau'r Pwyllgor Masnach Deg

## C.R.I.C.C YN DATHLU!



Ar ddiwedd y tymor yma [2010—11] bydd CRICC yn dathlu ei ben blwydd yn un ar hugain oed ac wedi bod yn defnyddio "Maes Diamond" am ddeng mlynedd.

Rhywbeth arall y bydd CRICC yn ei ddathlu yw llwyddiant Rhys Patchell, un o`i gyn aelodau, sydd wedi ennill ei le yng ngharfan dan 18 Cymru a`i gap cyntaf yn erbyn Ffrainc. Llongyfarchiadau i Rhys sy`n ddisgybl yn ysgol Glantaf ac ar fin treulio amser yng Nghanada. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei yrfa ar ôl gadael yr ysgol a diolch iddo am fod mor barod i helpu hyfforddi gyda`r clwb.




Ysgol y Wern - Masnach Deg

Mae Masnach Deb yn gofyn i bawb i ymffrostio am brynu nwyddau sy'n Fasnach Deg.

Boed yn addurno'ch gweithle â banana mawr Masnach Deg, cynnal digwyddiad cyhoeddus neu ddechrau stocio a gwerthu nwyddau Masnach Deg newydd, byddwch yn mynegi eich brwdfrydedd dros Fasnach Deg ac yn annog trafodaeth.

Tynnwch sylw at Fasnach Deg ar eich rhwydweithiau cymdeithasol a'ch gwefannau, arddangoswch eich hoff nwyddau Masnach Deg a dywedwch wrth bobl am y straeon y tu ôl iddynt.

Rhagor o wybodaeth ar - www.fairtradewales.com

**CYLCH MEITHRIN RADUR A PHENTREPOETH**

CYNORTHWYYDD RHAN AMSER

4 bore neu brynhawn
dydd Llun i ddydd Iau

Cyflog i'w drafod

Mae'n anghenrheidiol fod cymhwyster CACHE Level 2 yn ogystal a phrofiad o weithio gyda phlant bach dwy a hanner oed hyd at oed dechrau ysgol. Rhaid i'r person fod yn frwdfrydig ac yn weithgar ac i weithio'n dda o fewn tîm. Yn siaradwr rhugl yn y Gymraeg neu yn ddysgwr hyderus. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus gyflawni datgeliad BCT (CRB) a'r geirda angenrheidiol.

Am fanylion cysylltwch a

Nia McVeigh
07766 555608
niamcray@yahoo.com



SWYDD RHAN AMSER

Rydym yn chwilio am berson caredig i gasglu ein mab 7 mlwydd oed o Ysgol Gwaelod y Garth o fis Medi ymlaen ac i ddod ag ef adref i Radur.

Telir cyflog da.

Oriau gwaith arferol
3.30 hyd 6.00.

Am fanylion cysylltwch ar
07966 157893


## Arddangosfa yn Neuadd Dewi Sant

Bydd gennyf arddangosfa o luniau yn agor yn Neuadd Dewi Sant ar nos Wener 15 Ebrill. Ymddangosodd llawer o'r lluniau yn y gyfrol Rhyw Deid yn dod Miw (Gomer) ac enillodd un o'r lluniau Wobr y Bobl yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Mae croeso cynnes i ddarllenwyr Y Dinesydd ddod i\'r agoriad, rwng 5 a 7 yr hwyr nos Wener 15 Ebrill.

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu lun, byddwn yn falch o glywed oddi wrthych.

Aled Rhys Hughes

www.aledrhyshughes.co.uk


# Y Dinesair

Rhif 112

Croesair gan
Rhian Williams

Atebion:
22 Heol Cae Rhys
Rhiwbeina
CF14 6AN

i gyrraedd erbyn
20 Ebrill 2011



**Ar Draws**

1. Y cyfanfyd a bawd o gwmpas y dysg di-ddiwedd. (8)
6. Dechrau casglu ieir Sain Tathan yn y coff. (4)
8. Y tric yw cael darnau lôst bara pinc! (6)
9. 'Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Daw,
___ ___ o'i le, nid ie a nage yw' (E.J) (2, 4)
10. 'I ennyn ynom nefol dân
Duw, anfon ___ ___ ___' (J.H) (2, 3, 6)
11. Modur yn cyrraedd elusen. (6)
14. Tuedd braidd yn wyllt. (6)
16. 'Fe ___ ___ innau'n lân,
I'w bynwen yn y man. (W.W) (5, 1'5)
20. Cerrig mân yn torri'r argae a phen nodwydd. (6)
21. Cael tôn ar yn ail mewn cawl tatws. (4)
23. Coginio oen i Glyn a'i wrthwynebwyr. (8)

**I Lawr**

2. Cywasgu'r ystyllod fel gwair. (5)
3. Yn y lle hwn yn uchel cwyd Dylan a dal gafael. (7)
4. A oes bwriad yng ngham caneri? (5)
5. Mae'n sgidie'n troi at y trefol. (7)
6. Cael diddanwch wrth ddigalonni'r cysgadur. (5)
7. 'Craig ___ mewn tymhestloedd
Craig a ddeil yng ngrym y lli.' (S.J.G) (7)
12. Mynd ar ôl mês efallai yn dymhorol. (7)
13. Un pigog yw'r mieri o ben y graig. (7)
15. 'Daeth ___ a'i ysgafnwaith,
A'i dywydd meddal mwyn.' (R.W.P) (7)
17. Llwyd fyddai William wedi iddo edrych. (5)
18. Lloches i bemel wedi colli'i phen yn Lloegr. (5)
19. Esgyn y 500 gyda un o'r Beatles. (5)

**ATEBION RHIF 111**

**Ar Draws**

7. Cymeradwyo; 8. Tila; 9. Trugaredd; 11. Ennyd; 12. Lloc; 15. Melynu; 16. Aflwydd; 17. Ser; 20. Digon; 21. Diffrwytho; 23. Iaith; 24. Gwenieithio

**I Lawr**

1. Hwiangerddi; 2. Ac a lyn yn; 3. Pefrio; 4. Tasgu; 5. Cwyr; 6. Ffordd; 10. Egwyddorion; 12. Llus; 13. Cor; 14. Cleifion; 18. Eithrio; 19. Dwsin; 21. Dagr; 22. Ffres.

Ennillydd Dinesair 110 - Mair Robins, Yr Eglwys Newydd.
Ennillydd Dinesair 111 - Gwenda Hopkin, Llanisien.


Asiantaeth Cyflenwi **Athrawon**

BAY Resourcing



Os ydych yn Athro Cynradd neu Uwchradd, Cynorthwydd Dysgu neu Ysgrifennydd Ysgol gallwn gynnig:

**Gwaith Rheolaidd**
•
**Amserlenni a dyddiadur ar-lein**
•
**Cyfraddau dyddiol cystadleuol**
•
**Lwfans Teithio a Chinio**

Gwe: www.bayresourcing.com Ebost: info@bayresourcing.com
Ffôn: 02920 494560
Cyfeiriad: 127 Bute St, Bae Caerdydd, CF10 5LE

# Caerdydd yn Croesawi Llysgennad Tsieina



Ymwelodd Llysgennad Tsieina i'r DU, Ei Ardderchogrwydd Mr Liu Xiaoming, â'r Amgueddfa Genedlaethol a'r Brifysgol fel rhan o ymweliad â Chymru.

Trafododd y Llysgennad Liu gysylltiadau'r Brifysgol â Tsieina, cyfarfu â myfyrwyr Tsieineaidd, a rhoes sgwrs am gysylltiadau Tsieina â'r byd.

Fe'i croesawyd i'r Brifysgol gan yr Is-Ganghellor, Dr David Grant. Yna, trafododd Dr Grant a'r Llysgennad gysylltiadau strategol cynyddol Caerdydd â Tsieina ym meysydd addysg, ymchwil, hyfforddiant proffesiynol a llunio polisïau. Yn bresennol yn y sgyrsiau hefyd yr oedd y Dirprwy Is-Ganghellor, Ymgysylltu a Rhyngwladol, yr Athro Hywel Thomas, a dau Gyfarwyddwr Sefydliad Conffiwsiws Caerdydd y Brifysgol, Dr Richard Evans a'r Athro Siyi Fu.

Yna, traddododd y Llysgennad Liu ddarlith ar Tsieina – Symud Ymlaen Law yn Llaw â'r Byd. Fe anerchodd gynulleidfa o ryw 80 o bobl, gan gynnwys myfyrwyr Tsieineaidd o Brifysgol Caerdydd a chyfeillion Sefydliad Conffiwsiws Caerdydd, sefydliad sy'n bodoli i hyrwyddo dealltwriaeth o iaith a diwylliant Tsieina ledled De Cymru. Manteisiodd y Llysgennad ar y cyfle i siarad â'r myfyrwyr o'r Brifysgol cyn mynd ymlaen i gael gwybod am waith yr Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol a'i chysylltiadau cryf â meithrin arbenigedd cynllunio yn Tsieina a'i chymorth o ran datblygu polisïau cynllunio strategol. Cafodd y Llysgennad Liu hefyd wybod am waith sefydliad newydd, y Sefydliad Ymchwil i Leoedd Cynaladwy, a fydd yn helpu i greu dyfodol cynaladwy a phwrpasol i ranbarthau dinesig ledled y byd.

Wrth sôn am ei ymweliad â Phrifysgol Caerdydd, dywedodd y Llysgennad Liu: "Mae'n bleser i mi gael ymweld â Phrifysgol Caerdydd, yr un fwyaf a'r orau yng Nghymru. Rwy'n falch o wybod bod y Brifysgol yn arwain y DU mewn sawl maes a'i bod hi'n cydweithio'n agos â'i chymrodyr yn Tsieina. Mae Sefydliad Conffiwsiws yn y Brifysgol hefyd wedi bod yn weithgar wrth feithrin cyd-ddealltwriaeth ein dwy wlad."

Soniodd y Llysgennad Liu wrth ei gynulleidfa am y 12fed Cynllun Pum-Mlynedd a gafodd ei fabwysiadu'n ddiweddar. Hwnnw fydd glasbrint datblygiad economaidd a chymdeithasol Tsieina ar gyfer 5 mlynedd nesaf. Dywedodd na fydd y datblygu yn Tsieina ond yn esgor ar ragor o gyfleoedd i Brydain a'r byd ddatblygu a ffynnu. Heriodd ef fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd i weld Tsieina drostynt eu hunain a magu profiad o Tsieina go-iawn yr oes fodern.

Yr oedd ymweliad y Llysgennad yn rhan o ymweliad deuddydd â Chymru. Cydlynwyd yr ymweliad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cyfarfu'r Llysgennad hefyd â Phrif Weinidog Cymru, y Gwir Anrh Carwyn Jones AC. Aeth hefyd ar daith o amgylch dau fusnes arloesol, a gwelodd yr arddangosiad o gerfiadau hynafol ar greigiau o Tsieina sy'n cael eu harddangos ar hyn o bryd yn Amgueddfa Cymru.

# Cymrodorion Caerdydd

Daeth rhaglen 2010-11 y Cymrodorion i ben nos Wener 11eg Mawrth gyda darlith gan Dr Simon Brooks ar 'Y Sipsiwn Cymraeg eu Hiaith'. Trafododd agwedd y brodorion ac agwedd deallusion rhamantaidd tuag at y Sipsiwn a drigai yng nghefn gwlad Cymru yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf. Craidd ei gyflwyniad oedd fod y Sipsiwn o dras ethnig hollol wahanol i'r Cymry, eu bod yn dal i siarad eu hiaith eu hunain (Romani), ond hefyd yn siarad Cymraeg – hynny yw, fod gennym yma enghraifft o gymdeithas wledig aml-ddiwylliannol a ddefnyddiai'r iaith Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu. Yr oedd Cymry cefn gwlad y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn siarad Saesneg (os o gwbl) fel ail iaith, ond i'w cymdogion Romani trydedd iaith oedd Saesneg. Dyma enghraifft felly o gymdeithas yn gwyrdroi'r norm Prydeinig drwy beidio defnyddio'r Saesneg fel cyfrwng cyfathrebu traws-ddiwylliannol.

Yr hyn sydd yn arwyddocaol iawn yw'r ffaith mai cadarnleoedd yr iaith Gymraeg oedd cadarnleoedd olaf yr iaith Romani Prydeinig, sef Penllyn, Uwchaled a Bro Dysynni. Mae'n amlwg nad oedd y diwylliant Romani yn cael ei weld fel bygythiad i ffyniant y diwylliant Cymreig a Chymraeg. Cilio'n raddol oedd hanes Romani fel iaith fyw fodd bynnag, ac efallai i ddeallusion a ymddiddorai yn hynt yr ieithoedd Celtaidd ystyried eu bod yn cael rhagolwg o dynged y Gymraeg yn nirywiad Romani. Gwnaeth Dr Brooks y pwynt mai yn y Bala y bu farw Hywel Wood, siaradwr olaf Romani Prydeinig, yn 1967, ac yn y Bala y lleolodd Islwyn Ffowc Elis y wraig olaf i fedru Cymraeg yn ei nofel Wythnos yng Nghymru Fydd (1957).

Un o hynodion y Romani yn gyffredinol yw eu tuedd i ddiogelu elfennau o ddiwylliant y bobloedd y buont yn trigo yn eu mysg. Er enghraifft, yng Nghymru cadwasant fel rhan o'u diwylliant y delyn deires a dawns y glocsen. Yn Andalusia dywedir mai'r Romani a ddiogelodd ddawns a cherddoriaeth Fflamenco. Yn fwy diddorol fyth, dywedir mai'r Sipsiwn oedd y gymdeithas olaf i arfer Gaeleg ar dir mawr yr Alban. Sylw J. Glyn Davies ('Fflat Huw Puw'), Athro Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Lerpwl, wedi iddo weld Sipsiwn yn perfformio mewn tafarn yn y Bala, oedd ei fod wedi cael cipolwg ar Gymru'r ddeunawfed ganrif.

Wrth gyflwyno'r siaradwr eglurodd y Llywydd, yr Athro John Gwynfor Jones, fod Dr Brooks wedi cytuno i ddod atom ar fyr

rybydd oherwydd salwch Hafina Clwyd, y siaradwraig a wahoddwyd yn wreiddiol. Nodwn gyda gofid y bu i Hafina farw ganol mis Mawrth, ac 'rydym fel cymdeithas yn cydymdeimlo â'i theulu yn Nyffryn Clwyd ac yma yng Nghaerdydd.

Diolchwyd i Dr Brooks am ei gyflwyniad hynod ddiddorol gan yr Is-Lywydd, Havard Gregory. Wrth ddod â gweithgareddau'r tymor i ben diolchodd y Llywydd i'r aelodau am eu ffyddlondeb a nododd fel y bu i'r gynulleidfa yn y cyfarfodydd gynyddu yn ddiweddar. Parhaed y tueddiad hwn!

*Gwynn Matthews*

# Ysgol y Wern

Bu nifer fawr o blant yn cystadlu yn yr Eisteddfod a braf oedd gweld y plant yn rhoi o'u gorau ar y llwyfan. Bu nifer yn llwyddiannus a bydd y 1af ym mhob cystadleuaeth yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir. Pob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Sir.

Llongyfarchiadau hefyd i'r tim Dawnsio Disgo, y Dawnsio Gwerin a'r Gân Actol am gyrraedd y brig yn yr Eisteddfod Sir. Pob lwc iddynt nawr wrth iddynt gynrychioli Rhanbarth Caerdydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe.

Llongyfarchiadau hefyd i Ifan Edwards(Bl 4), India Pappas(Bl 6), Lea Sanders(Bl 5), ac Osian Parry-Lowther(Bl 6) am ennill y cystadlaethau Celf a Chrefft. Pob lwc iddynt yn y Genedlaethol.

Yn ystod Pythefnos Masnach Deg derbyniwyd gwahoddiad gan Fasnach Deg Cymru i ymuno â'r dathliadau yn y Senedd. Yno derbyniwyd y Faner Masnach Deg gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Jane Davidson a'r Aelod Cynulliad Lorraine Barret.

# Ysgol y Berllan Deg

**Eisteddfota**
Mwynhaodd yr ysgol llwyddiant yn yr Eisteddfod Cylch gyda Parti Unsain dod yn gyntaf ac Eiriana Jones-Campbell yn gyntaf hefyd yn unawd Blwyddyn 2. Fe ennillodd yr ysgol ail a trydydd safle mewn nifer o cystadlaethau eraill hefyd.

**Ymweliadau**
Aeth Blwyddyn 5 i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i gydweithio gyda'r arlunydd tecstiliau Katrina Willis yn creu patrymau wedi eu seilio ar arddangosfa Cerfiadau Carreg Hynafol o Dazu, Tsieina. Uchafbwynt y bore i Ddosbarth Elen fu cael cyfarfod Llysgennad Tsieina ym Mhrydain oedd ar ymweliad arbennig gyda'r amgueddfa.

**Masnach Deg**
Bu'r pwyllgor Masnach Deg yn brysur tu hwnt yn cymryd rhan mewn gwasanaeth ysgol Masnach Deg, ac yn trefnu Bore Coffi i'r rhieni ac i'r staff. Llwyddwyd i godi cyfanswm o £142.11 at yr elusen cancr CLIC Sargent.

**Unicef**
Cynhaliwyd raffl yn ddiweddar i ennill llyfr wedi ei arwyddo gan Jacqueline Wilson. Codwyd cyfanswm o £168 tuag at yr elusen Unicef.

**Eisteddfod yr Ysgol**
Cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol ar Ddydd Gŵyl Dewi. Llongyfarchiadau i Megan Manley am ennill y Gadair eleni gyda cherdd ar y testun "Nid fi oedd ar fai." Ioan Davies ac Olivia Browne ddaeth yn ail, gyda Beca Bennett, Carys Jones a Moli Harries yn drydydd.

# Ysgol Nant Caerau

Bu blwyddyn 1 a 2 ar ymweliad go arbennig tymor hwn. Aethant i'r Amgueddfa Genedlaethol er mwyn arsylwi ar y deinisoriaid. Roeddent wrth eu bodd yno a methu credu yr hyn welsant gan gynnwys Tyrannosaurus Rex a Brontosaurus. Ar ôl bore cyffrous yn yr Amgueddfa Gendlaethol aethant yn eu blaen i lyfrgell y dref. Yno cawsant stori am ddeinisoriaid gan un o staff y llyfrgell.

**Ein Gwaith yn Gymuned**
Bu'r plant i Orsaf Dan Trelai ac wrth eu bodd yn esgus diffodd tan a chael eistedd yn yr injan. Aethant i Gapel Salem, Treganna er mwyn bedyddio babi dol o'r Feithrin. Roedd Georgia Hancock yn fam bedydd a Thomas Gallimore yn dad bedydd balch iawn i Ioan Joseff!!

**Ymwelwyr**
Daeth 2 blismon cymunedol i siarad â phlant blwyddyn 3 am eu gwaith yn Nhrelai a Chaerau. Daeth SCCH Rachel Lee a SCCH Wil Evans atom ac roeddynt wrth eu bodd yn nosbarth blwyddyn 3 yn ateb ac yn holi cwesitynau.

**Ysgol Rhamantus**
Ar ddiwrnod Sant Ffolant bu plant blwyddyn 3 yn brysur yn arddurno cacennau a'u gwerthu yn yr ysgol. Codwyd £75 ar gyfer Ymgyrch y Galon.

# Cydymdeimlo â...

Cydymdeimlwn a theulu y diweddar Gwyneth Griffiths a fu'n farw dawel ar y 18 Chwefror. Bu'r angladd a'r 4 o Fawrth.

Cydymdeimlwm a theulu diweddar Elis Wyn Gruffudd Llandaf a bu farw'n dawel yn Nhy Hafan y Sili ar y 25 Chwefror. Cafwyd gwasanaeth preifat yn Amlosgfa Draenen ar y 4 Mawrth ac yna cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus o ddiolch am ei fywyd yng Nghapel Salem Treganna.

*Yn dilyn o dudalen 3*

# Llandaf neu Llandaff?

Os welwch ymateb ar wefan Wales Online am hyn, mae'r un hen bwyntiau yn cael eu codi ynglŷn â chostau o godi arwyddion dwyieithog. Mae'r pwyntiau sydd yn cael eu codi yn eithaf torcalonnus i'w darllen:

"Some Welsh Language enthusiasts give the language a really bad name. I can't speak it, and am rapidly losing any interest in learning. Who want's to encourage these type of intolerant extremists?"

"Let these fools go back to their isolated little hamlets stuck in the middle ages where they are more comfortable"

Mae'n biti i weld mater o gamddealltwriaeth rhwng y Gymdeithas wedi rhoi siawns i rai sydd yn erbyn yr iaith Gymraeg i dywallt eu barn gas am iaith gyntaf miloedd o bobl, ac yn dangos pa mor bell rydym orfod mynd tan i'r iaith cael ei dderbyn fel rhan annatod o fywyd y Ddinas.

*Alun E Williams*

# Newyddion o'r Eglwysi

## EGLWYS DEWI SANT

**Agor yr Eglwys**
Agorir yr eglwys i'r cyhoedd bob dydd Mercher tan ddiwedd mis Tachwedd o 11 tan 5. Mae croeso i bawb alw i mewn a dewch â'ch ymwelwyr gyda chi.

**Cinio Gŵyl Dewi**
Roedd neuadd yr eglwys dan ei sang ar gyfer y cinio a gynhaliwyd ar ôl ein gwasanaeth Gŵyl Dewi. Diolch yn fawr i Catherine Owen Jones a'i chynorthwywyr am ddarparu pryd arbennig.

**Bedydd**
Roedd hi'n bleser croesawu Catrin ac Alan Jeffreys yn ôl i Ddewi Sant ar gyfer bedydd eu mab, Cai David John. Merch Chris a John Livsey yw Catrin, sydd erbyn hyn yn byw yn Llundain. Roedd hi'n hyfryd gweld mam Alan a oedd wedi teithio o Awstralia i fod gyda'r teulu ac hefyd Simon a Beth Livsey a'i merch fach Elin. Cafwyd gwasanaeth bendithiol dan ofal y Parch Tomos Watkin.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn yn fawr ag Amy a Stephen Adams ar farwolaeth tad Amy yn ddisymwth yn America.

**Y Croeshoeliad**
Cynhelir gwasanaeth arbennig am 6 nos sul, Ebrill 17, pan fydd Côr Caerdydd yn cyflwyno gwaith Stainer, "Y Croeshoeliad". Dewch yn llu.

## Y TABERNACL

**Dyweddïad**
Llongyfarchiadau i Lowri Evans a Tom Guy ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Mae nhw wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn hyrwyddo'r trefniadau ar gyfer y diwrnod mawr yn Horeb Penrhyn-coch ar Fedi 1 eleni.

**Oedfa Gyflwyno**
Trefnwyd cyfle i gyflwyno Dewi, mab Meuryn a Julie Hughes, ar ddechrau'r mis yn ystod yr Oedfa Deuluol. Edrychwn ymlaen at y fraint o'i weld yn tyfu.

**Dathlu genedigaeth**
Roedd hi'n braf gweld Ifor a Rhian Davies, Caerfyrddin yn y gynulleidfa ar Sul olaf mis Chwefror a rhannwn eu llawenydd o groesawu ŵyr arall. Hefyd, rhannwn lawenydd Mair Owen, Casnewydd wrth iddi groesawu ei gor-wyres gyntaf, Phebe Elen.

Teulu arall a fydd yn dathlu genedigaeth ŵyr fydd Gwynne a Gwenda Williams a hwythau yn hen-daid a hen-nain unwaith yn rhagor, a bydd amryw yn adnabod Siân a Howard Phillips o Ben-y-bont ar Ogwr sy'n croesawu Arwen, merch i Owen a Nanan, i'r teulu

**Cymdeithas y Chwiorydd**
Aeth aelodau'r Gymdeithas draw i Eglwys y Crwys ddechrau'r mis i gymryd rhan yng Nghwrdd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd. Yna cawsom gwmni Sian Pickard a bu'n siarad am ei phrofiadau o'i phlentyndod hyd heddiw. Rhaglen amrywiol a gafwyd yn y cyfarfod nesa gyda'r aelodau eu hunain yn rhannu profiadau. Pnawn hollol wahanol wedyn gyda Nerys Snowsill (Howell) 'Yn y Gegin'.

**Cymdeithas Nos Fawrth**
Y Cinio Gŵyl Ddewi blynyddol oedd achlysur cyntaf y mis – y gŵr gwadd eleni oedd Rhodri J Williams. Bu'n olrhain hanes un o'i deulu a hwnnw'n ddyn arbennig iawn. Roedd y bwyd fel arfer o'r safon uchaf. Noson yng nghwmni John Bwlch Llan oedd ar ail ddydd Mawrth y mis – noson fendigedig gyda'r hanesydd arbennig hwn.

**Nwyddau i Romania**
Nodwyd gyda thristwch eisoes mae'r ddau drip nesaf ym misoedd Mawrth ac Ebrill, fydd y teithiau olaf i Romania dan arweiniad Alan ac Ann Penrose. Maent wedi cario nwyddau eithriadol, a diolch i aelodau'r Tabernacl am rannu yn y gwaith. Bydd y trip olaf ym mis Ebrill yn cludo wyau Pasg i gartrefi plant. Croeso i chi holi Beryl Eurig am fwy o wybodaeth.

**Codi arian i Brosiect Lesotho**
Gwahoddwyd ni i swper ar aelwyd Eluned ac Owen Rook ar nos Wener, Mawrth 18. Diolch iddyn nhw am eu croeso a'u parodrwydd i gefnogi'r achos.

**Te'r digartref**
Cynhaliwyd cyfarfod buddiol yn ystod y mis yn adolygu'r trefniadau ar gyfer y prynhawniau Sul. Mae eglwys Bethel Penarth wedi gofyn am gyfle i rannu yn y fenter, tra bod rhai a wasanaethodd y cynllun ers sawl blwyddyn wedi gofyn am gael eu rhyddhau. Daeth rhywrai o'r newydd o blith aelodau'r eglwys i gynnig eu gwasanaeth a bydd Eluned Owen Rook yn falch o ychwanegu mwy o enwau ar y rota. Daeth swyddog o Gyngor y Ddinas i sôn am eu darpariaeth ac roedd pawb yn teimlo i'r cyfarfod fod yn un hynod fuddiol.

**Organothon**
Ar ddydd Sadwrn, Mawrth 12fed, bu organyddion y Tabernacl yn chwarae'n ddistop o 7.30am hyd at 7.30pm. Roeddent yn ddiolchgar am bob nawdd ariannol a dderbyniwyd. Daeth llawer i dreulio amser i eistedd ac i fwynhau'r gerddoriaeth. Rhagor am y swm terfynnol y tro nesa.

**Cyngerdd gan Fyfyrwyr**
Trefnwyd cyngerdd gan gyfeillion y Cwmni Opera Cenedlaethol ar Fai 16 ddechrau am 7.30pm. Bydd y tocynn yn £13.50, a gellir prynu tocynnau drwy law Beryl Eurig.

**Cofio'r Parchg T.J. Russell Jones**
Bu farw'r Parchg T. J. Russell Jones ddiwedd mis Chwefror, yn Ysbyty'r Waun. Bu'n pregethu'n gyson yn y Tabernacl, a bu am gyfnod yn weinidog yn Eglwys Tredegerville, Caerdydd. Roedd yn enedigol o Gorseinon, a bu'n weinidog yn Nhrefforest, Aberystwyth, Rhisga, Llanelli, Caerdydd a Chaerffili.

## MINNY STREET

**Cydymdeimlo**
Cofiwn yn ddiolchgar am Mrs Gwyneth Griffiths (Llysfaen), un o'n haelodau hynaf ond hefyd un o'r ffyddlonnaf yn ein hoedfaon, a fu farw ar 18 Chwefror. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'r meibion, Hugh a Martin, a'u teuluoedd, ynghyd â chyfeillion niferus.

**Aelod Newydd**
Croesawn Buddug Rees yn gynnes iawn i'n plith. Daeth Buddug yn aelod atom o Eglwys Ebeneser, Trefdraeth, sir Benfro ac eisoes cawsom ei chwmni hi a'r teulu yn gyson yn ein hoedfaon a'r Ysgol Sul.

**Genedigaeth**
Croeso cynnes a phob dymuniad da i Jack Llywelyn Harries, mab i Dafydd a Katherine-Ann (Pontprennau), brawd i Beca ac ŵyr bach arall i Margaret a Justin Harries.

**Bedydd**
Hyfrydwch fu tystio i fedydd Deiniol Owain Roberts, mab Aled a Non (Yr Eglwys Newydd) a brawd Elin fore Sul, 20 Chwefror. Yn yr un modd, hyfrydwch fu tystio i fedydd Gwion Ellis Rees, mab Buddug ac Owen (Yr Eglwys Newydd) a brawd Awena a Bethan bythefnos yn ddiweddarach ar fore Sul, 6 Mawrth. Dymunwn yn dda i'r ddau deulu.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Shani Llyr Evans ar ddod yn ail agos iawn mewn cystadleuaeth ddringo rhwng timoedd de a gogledd Cymru (The Youth Climbing Series dan nawdd Cyngor Mynydda Cymru) yng nghanolfan ddringo The Beacons ger Llanrug ym mis Mawrth - a hynny yn

y dosbarth 11-13 oed (er mai 10 oed yw Shani!). O ganlyniad bydd Shani yn cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Prydain yn Wolverhampton ym mis Mehefin. Ardderchog, Shani!

Llongyfarchiadau i Rhys Patchell ar gael ei ddewis i chwarae i sgwad dan 18 oed tîm rygbi Cymru. Cafodd ei gap cyntaf ar 6 Mawrth mewn gêm yn erbyn Ffrainc. Gwych, Rhys!

**Pythefnos Masnach Deg:**
**28 Chwefror hyd 13 Mawrth 2011**
Trefnodd Cylch Dinasyddiaeth yr eglwys nifer o ddigwyddiadau i nodi Pythefnos Masnach Deg. Addurnwyd silffoedd ffenestri'r capel a thu ôl i'r pulpud ag amrywiaeth helaeth o nwyddau Masnach Deg a chafwyd sawl cyfle i brynu nid yn unig nwyddau rydym yn eu gweld yn fisol ar y stondin Masnach Deg yn y festri ond hefyd nwyddau mwy anarferol! Lluniwyd cwis gwybodaeth Mastermind Masnach Deg yn cynnwys nifer o gwestiynau i'w hateb yn ystod y pythefnos. Trefnodd yr Ysgol Sul hefyd Mini Mastermind Masnach Deg i'r plant. Er nad yn uniongyrchol gysylltiedig â Phythefnos Masnach Deg, amser cinio dydd Gwener 25 Mawrth 2011 cynhaliwyd Cinio Cawl Cynnil yn y festri er budd Cymorth Cristnogol, gan ymuno â Christnogion, eu teuluoedd a'u ffrindiau, ar draws gwledydd Prydain dros ginio o gawl ac, ar yr un pryd, ein hatgoffa ein hunain o'r tlodi a'r anghyfiawnder cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd a berthyn i'r byd.

**Oedfa Gŵyl Dewi**
'Roedd y festri'n llawn wrth ddathlu Gŵyl ein Nawddsant mewn ysbryd o ddefosiwn gyda'r nos ar Fawrth y cyntaf. Thema'r gwasanaeth oedd perthynas; natur perthynas y Cristion â'i genedl, â'i gyd-ddyn ac â Duw. Ystyriwyd yr agweddau hyn trwy gyfrwng cyfres o gerddi a darlleniadau o'r ysgruthur. Cyffesodd y Gweinidog ei fod yn gasglwr o bopeth yn ymwneud ag Abraham Lincoln! Clywsom un stori arbennig am y gŵr mawr yn cwyno wedi oedfa nad oedd y pregethwr wedi gofyn i'w gynulleidfa 'wneud unrhyw beth mawr' a roddai urddas i'r natur ddynol. Anogodd Dewi Sant ni i wneud y pethau bychain; o'u gwneud yn iawn, gwnawn rywbeth mawr fydd yn dangos maint a dyfnder ein Ffydd.

**Munud i Feddwl...**
**trwy gyfrwng gwefan yr eglwys**
Yn ogystal â'r adroddiadau cyson am weithgarwch yr eglwys ar wefan Minny Street y mae cynhaliaeth ychwanegol ac amserol gan y Gweinidog i ymateb i newyddion a phrofiadau'r dydd. Dyma gip sydyn ar dri myfyrdod diweddar: Aflonyddwch a Llonyddwch (2 Mawrth 2011): myfyrdod a ysgogwyd gan yr aflonyddwch sy'n ymledu ar draws y Dwyrain Canol; Gwledd ac Ympryd (9 Mawrth 2011): myfyrdod ysgogol ar gyfer y Grawys ar y cysylltiad rhwng bwyd a ffydd, a Tair Stori (16 Mawrth 2011): cyfres o dair stori gryno yn ganllaw i ymateb i'r adroddiadau newyddion cythryblus cyfredol o Japan a'r dwyrain Canol. I ddarllen y myfyrdodau hyn, Munudau i Feddwl eraill a mwy o newyddion diweddaraf Minny Street ewch i www.minnystreet.org.

## Y CRWYS

**Y Gymdeithas**
Ar Nos Wener Mawrth 4ydd cafodd aelodau Y Gymdeithas gyfle i ddathlu gŵyl ein nawdd sant gyda chinio wedi ei drefnu yng Nghlwb Golff Caerdydd yn Radyr. Ein gŵr gwadd eleni oedd Emyr Daniel a cawsom ganddo anerchiad oedd yn dwyn i gof rai o'r gŵyr amlwg a gyfarfu yn ystod ei yrfa yn y gyfryngau, a'r mwyaf efallai oedd y gwladweinydd byd enwog Nelson Mandela. Fe'i cyflwynwyd gan Bryan James ein Cadeirydd am eleni ac fe fynegwyd gair o ddiolch gan ein Gweinidog Y Parch Glyn Tudwal Jones.

**Y Gorlan**
Ein gwraig wadd ar brynhawn Dydd Mercher Chwefror y 23ain oedd Eilonwy Jones gwraig a gyfranodd yn eang i fywyd crefyddol a diwylliannol yn y gornel hon o'r hen wlad fach yma. Cawsom ganddi fraslun o'i chyfnod yn Ysgol Tregwyr ac yn y Coleg ac roedd y bwyslais iddi hi yn y sefydliadau hyn ar gerddoriaeth. Wedi gadael y Coleg rhois ei bryd ar fod yn athrawes a hynny a fu er iddi gael peth anhawster i gael swydd ar y cychwyn. Gydag amser daeth cyfle i ddod yn ôl i Gymru ac i gael ei dyrchafu yn benaeth yr adranau cerdd yng Nghaerffili a Llanharri.

Byd gwyn fo'r byd a gano,

Gwaraidd fydd ei gerddi fo.

Yn ein cyfarfod ar brynhawn Dydd Mercher y 9fed o Fawrth cawsom glywed am rai o atgofion cynnar Delwyn Tibbot. Un o fechgyn tref Aberystwyth yw Delwyn gan fynychu Ysgol Ardwyn a Choleg y Brifysgol yn yr un dre, ac yna i'r fyddin am gyfnod yn ôl yr arfer am rai blynyddoedd ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Wedi cymhwyso ei hun fel archifydd gwasanaethodd nifer o sefydliadau yn y gwaith arbennigol hwn gan gynnwys yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Mynychai'r teulu gapel y Tabernacl yn ffyddlon, ei datcu a'i dad yn swyddogion yno yn eu tro a chyfraniad y ddau i'r achos yn cael ei gydnabod gan yr aelodau.

**Yr Ysgol Sul**
Ar fore Sul Mawrth y 7 fed cafodd yr aelodau gyfle i ddathlu gŵyl ein nawdd sant gyda gwasanaeth arbennig yng nghwmni plant iau yr Ysgol Sul,roedd eu gwisgoedd lliwgar yn llawn bathodynau a chenhin pedr,a'u canu afiaethus yn wladgarol iawn. Trwy gyfrwng emyn, cân, darlleniad a stori cawsom ein hatgoffa o'n traddodiadau gwerthfawr. Byddai Dewi Sant yn falch iawn ohonoch i gyd.

## Rysáit y Mis

**Cacen Mel gyda eisin lemon**
**Gan Nerys Howell**
**o Ymgynghoriaeth Bwyd Howel**

Yn lle'r gacen syml traddodiadol beth am roi cynnig ar y gacen yma sy'n seiliedig ar gacen fêl traddodiadol.

Cynhwysion
350g/ 14 owns blawd plaen
2 ½ llwy de powdwr codi
¾ llwy fwrdd soda pobi
2 llwy de sbeis cymysg
150g/ 6 owns menyn heb halen
150g/ 6 owns siwgwr man
3 wy mawr
250ml/ 8owns hylufol iogwrt naturiol neu llaeth enwyn
½ pt hufen dwbl neu caws mascarpone
Croen un lemon
½ pot o ceuled lemon

Dull
Gwres ffwrn: 180C/350F/marc nwy 4
Irwch dun cacen 25cm/ 10".
Hidlwch y pedwar cynhwysyn gyntaf i fowlen. Cymysgwch y menyn a'r siwgwr tan yn hufennog ac wedyn yr wyau, un ar y tro.
Plygwch y blawd, mel, iogwrt neu'r llaeth enwyn yn ofalus i'r gymysgedd.
Rhowch y gymysgedd yn y tun a coginiwch am 30- 40 munud
Gadwech y cacen i oeri am 10 munud cyn ei droi allan ar hambwrdd oeri , a thorrwch yn ofalus ar ei hyd i wneud dwy hanner
Chwipiwch yr hufen nes ei fod yn stiff, ac yna plygwch groen y lemon a'r ceuled lemon iddo.
Defnyddiwch yr eisin i lenwi a addurno top y gacen. Gellir addurno gyda rhagor o lemon neu gnau pistachio.

Mae Ymgynhoriaeth Bwyd Howel yn gwmni sy'n helpu marchnata bwyd a diod o Gymru gan ddatblygu ryseitiau, bwydlenni, ffotograffiaeth bwyd a hyfforddi.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.howelfood.com

# Newyddion



## Pluen yn Het y Pysgodyn

Llongyfarchiadau i David Davis o'r Barri am ei gampwaith eto yn ennill ras 1500 medr mewn pencampwriaeth Nofio ym Manceinion yn yn niweddar a hefyd yn ennill yr hawl i gystadlu yn mhencampwriaeth y Byd yn Shanghai.

Ennillodd fedal yn Athens yn 2004 a medal arian yn Beijing a'i obaith wrth gwrs fydd ennill medal yn y chwaraeon Olympaidd nesaf yn Llundain. Pob llwyddiant eto iddo yn ei uchelgais.

## Colofnydd y Western Mail yn marw

Yn 74 oed bu farw Hafina Clwyd ar y 14 Mawrth ar ol brwydro yn erbyn Cancr. Roedd yn awdures yn 11 o lyfrau a hi oedd golofnydd y Baner. Bu'n faer tref Rhuthun yn 2008-09 a bydd ei lyfr a orffennodd tua tair wythnos cyn iddi farw sef "Mynd i'r Gwrych' yn ymddangos yn yr wythnosau nesaf. Bu colofnau ganddi yn y Cymrp a Chylchgrawn 'Gwawr" yn ogystal yn yr 'Western Mail' ac mae ei cholled yn gadael bwlch mawr yn y byd llenyddol yng Nghymru. Cydymdeimlwn a'i theulu yn eu colled mawr.

## Eisteddfod Ryng-golegol Cymru

Eleni cynhaliwyd Eisteddfod RyngGolegol Cymru yng Nghaerdydd dros y penwythnos 18-20 Chwefror. Ennillwyd y Gadair gan Gruffudd Antur Prifysgol Aberystwyth

## Arloeswr yn myd teledu yn marw

Ar y 12 Mawrth yn Holme Towers Penarth, yn 82 oed bu fawr Selwyn Roderick, Cynyrchydd gyda BBC Cymru. Roedd yn un o ddisgynyddion William Williams Pantycelyn ac yn Gymro i'r carn. Bu'n ymwneud a rhaglenni megis 'Come Dancing' a 'Songs of Praise' a bu'n ffilmio rhaglenni am Batagonia yn ystod ei yrfa.

Cynhaliwyd dathliad o'i fywyd yn Nghapel Bethel Rhiwbeina ar y 25 Mawrth. Cydymdeimlwn a'i deulu yn eu colled mawr.

## Capel Coch i Batagonia

Cynhaliwyd premier y ffilm 'Patagonia gan y cyfarwyddwr Marc Evans gynt o Rhiwbeina yn Nghanolfan Chapter ar Nos Iau 3 Fawrth. Y prif westeion oedd yr actores Nia Roberts a Duffy.

## Arian ac Aur i Geraint

Yn ddiweddar ennillodd Geraint Thomas Llwynfedw gynt fedalau Arian ac Aur mewn rasys seiclo pwysig yn Manceinion. Mae o gobeithio cystadlu yn y chwareon Olympaidd yn Llundain yn 2012.

## Llwyddiant Llwyd

Mae'r ail nofel a ysgrifenodd Llwyd Owen o Riwbeina, wedi ei chyfieithu i'r Saesneg sef "Faith, Hope and Love" ac mae'r nofel wedi gwerthu'n dda yn yr Unol Daleithau gymaint felly nes eu bod wedi ail-argraffu'r llyfr.

Mae stori am nofel newydd Llwyd ar y dudalen flaen.

# Y Calendr

Gwener, 1 Ebrill
Cylch Cadwgan. Yr Athro M. Wynn Thomas yn siarad ar y testun 'Barddoniaeth Grefyddol R. S. Thomas' yn y Ganolfan, Tabernacl, Yr Efail Isaf am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig
Llun, 4 Ebrill
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwraig wadd: Bethan Darwin. Manylion pellach: Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).
Mercher, 6 Ebrill
Merched y Wawr Bro Radur. Sgwrs gan Hannah Wynn Jones o Ganolfan y Mileniwm, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.
Iau, 7 Ebrill
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Myfyrdod y Grawys (3): Yr Ysbryd Glân', dan arweiniad yr Athro Tomos Watkin. Yng nghapel Ebeneser, am 7.30pm.
Sadwrn, 9 Ebrill
Cymdeithas Carnhunawc. Taith i Lundain. Am fanylion pellach, cysylltwch â Nans Couch (029-2075-3625) neu Catherine Jobbins (029-2062-3275).
Llun, 11 Ebrill
Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen. Noson yng nghwmni Rebecca Spiller o'r Cynulliad, yn Neuadd y Groes-goch, Y Bont-faen, am 7.30pm.
Mawrth, 12 Ebrill
Darlith Goffa G. J. Williams (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd). Darlith gan yr Athro Dafydd Johnston: 'Bardd yr Haf yng Nghysgod y Chwyldro: Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym 1789 a Jean-Jacques Rousseau'. Yn Ystafell 0.36, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Croeso cynnes i bawb.
Mawrth, 12 Ebrill
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Rhodri Morgan, cyn-Brif Weinidog Cymru, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.
Mawrth, 12 Ebrill
Cyngerdd Côr y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd, dan arweiniad Euros Rhys Evans.
Mercher, 13 Ebrill
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Prynhawn cerddorol yng nghwmni Mair Robins, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
Iau, 14 Ebrill
Cymdeithas Cymru-Ariannin. Cangen y De. 'Y Drafod yn 120 Oed.' Sgwrs gan Walter Ariel Brooks, a Chyfarfod Blynyddol y Gangen i ddilyn, yn Ystafell Edwin, Capel Salem, Treganna, am 7.30pm.
Gwener 15 Ebrill
Clwb y Diwc. Huw Chiswell a Lisa Angharad yn y Duke of Clarence, Treganna, am 8.00pm. Mynediad: £8.
Sadwrn, 16 Ebrill
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Dr Lynda Newcombe ar y testun 'Trosglwyddo'r Iaith i'r Gymuned' am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.
Llun, 18 Ebrill
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Beti Davies, yng nghapel Bethany am 7.30pm.

Bwrlwm
Fe fydd y Fenter yn cynnig cyfleoedd CHWARE yn rhad ac am ddim yn ystod gwyliau'r Pasg mewn 3 lleoliad. Fe fydd y gweithgareddau yn cynnwys coginio, celf a chrefft, wii, playstations a llawer mwy, i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes angen cofrestru o flaen llaw - dim ond dod ar y diwrnod!
Dydd Mawrth 26/04 – Dydd Iau 28/04.
Ysgol Glan Morfa (10.30am – 12.30pm)
Ysgol Coed y Gof (10.30am – 12.30pm)
Ysgol Nant Caerau (1.30pm—3.30pm)

Llun, 26 Ebrill
Bwrlwm:
Dydd Mawrth 26/04 – Dydd Iau 28/04.
Ysgol Glan Morfa (10.30am – 12.30pm)
Ysgol Coed y Gof (10.30am – 12.30pm)
Ysgol Nant Caerau (1.30pm—3.30pm)

Mercher, 4 Mai
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ffilm am hanes gwersyll y carcharorion yn Henllan, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
Mercher, 4 Mai
Merched y Wawr Bro Radur. Brethyn Cartref a Chyfarfod Blynyddol, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.
Llun, 9 Mai
Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen. Ymweld â Gareth Richards y cogydd yn ei gartref yn Llambed.
Mawrth, 10 Mai
Merched y Wawr Caerdydd. Noson yn trafod hen greiriau yng nghwmni Walter Jones. Yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.
Iau, 12 Mai
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Oedfa Cymorth Cristnogol, dan arweiniad Aled Pickard. Yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.
Sadwrn, 14 Mai
Cyngerdd Côr Cantemus, yn y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd.
Llun, 16 Mai
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyngerdd Côr Caerdydd, yng nghapel Bethany am 7.30pm. Tâl mynediad: £5.
Llun, 16 Mai
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Prosiect BLOODHOUND.' Sgwrs gan yr Athro Ken Morgan (Prifysgol Abertawe), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.
Mercher, 18 Mai
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. I fyd y gân yng nghwmni Arwel ac Eleri Peleg Williams, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
Sadwrn, 21 Mai
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Astudio cerdd yng nghwmni Dewi George am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.
Sadwrn, 21 Mai
Cynhelir cynhadledd flynyddol Cristnogaeth 21 yng nghapel Salem, Treganna. Siaradwr gwadd: Dave Tomlinson. Rhagor o fanylion ar www.cristnogaeth21.org.
Mercher, 1 Mehefin
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Celfi Brynmawr.' Sgwrs gan Dr Eurwyn Wiliam, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
Iau, 9 Mehefin
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Yng nghapel Salem, Treganna, am 7.30pm.
Sadwrn, 11 Mehefin
Cymdeithas Eglwys y Tabernacl, Yr Ais. Trip y Gymdeithas i Gapel Rydwilym ac Arberth.
Llun, 13 Mehefin
Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen. Barbeciw.
Mawrth, 14 Mehefin
Merched y Wawr Caerdydd. Brethyn Cartre a Chyfarfod Blynyddol, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.
Mercher, 15 Mehefin
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Te pentymor a Chyfarfod Blynyddol, am 2.00pm yn festri Capel Minny Street.
Sadwrn, 18 Mehefin
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Astudio'r gerdd 'Y Ffatri'n Cau' (Gwyn Thomas) yng nghwmni Ann Davies ac Amanda Griffiths am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.
Llun, 20 Mehefin
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyfarfod Blynyddol, ac yna noson yng nghwmni Mary Wiliam, yng nghapel Bethany am 7.30pm.
Sadwrn, 25 Mehefin
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Bore coffi.
Llun, 27 Mehefin
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gwibdaith.
Mercher, 29 Mehefin
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ymweliad â thre Caerfyrddin a'r Amgueddfa yn Abergwili.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at

Dr E. Wyn James,
16 Kelston Rd.,
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

# Prifddinas Chwaraeon Ewrop 2014

Mae Caerdydd wedi llwyddo i gipio'r teitl mawreddog - Prifddinas Chwaraeon Ewrop 2014. Cafodd y cyhoeddiad ei wneud gan swyddogion Cymdeithas Prifddinasoedd Chwaraeon Ewrop mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn Valencia. Dyfarnwyd y teitl i Gaerdydd yn dilyn ymweliad â'r ddinas gan dîm o gynrychiolwyr o Ewrop.

Yn ystod yr ymweliad bu'r cynrychiolwyr yn teithio o gwmpas cyfleusterau chwaraeon yn y ddinas gan gynnwys Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd a Stadiwm Dinas Caerdydd. Cydnabuwyd bod Caerdydd wedi hen sefydlu ei hun fel dinas flaenllaw o ran chwaraeon, gan gynnig y stadia a'r cyfleusterau diweddaraf un gan gynnwys Stadiwm y Mileniwm, Stadiwm SWALEC a Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd.

Mae'r teitl Prifddinas Chwaraeon Ewrop yn cydnabod ymrwymiad y ddinas i ddarparu chwaraeon fel swyddogaeth gymdeithasol a'i ddefnyddio i wella ansawdd bywyd a lles ei dinasyddion yr un pryd. Mae Caerdydd wedi cynnal llawer o ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys cystadleuaeth y Lludw, Cwpan Rygbi'r Byd a rowndiau terfynol Cwpan yr FA, gan ddenu cynulleidfa fyd-eang o filiynau o bobl.
Roedd y beirniaid wedi cael eu plesio'n arw â'r gefnogaeth i chwaraeon ar lawr gwlad drwy raglen Chwaraeon.Caerdydd sy'n helpu i hyfforddi a phenodi cannoedd o hyfforddwyr i weithio mewn ysgolion, clybiau chwaraeon a chymunedau ac wedi darparu mwy na 350,000 o gyfleoedd cyfranogol.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Caerdydd, y Cynghorydd Rodney Berman: "Does dim gwadu'r ffaith fod y ddinas yn ganolfan chwaraeon o dras.

"Rydym wedi cynnal sawl digwyddiad chwaraeon o bwys yn llwyddiannus, wedi sefydlu rhaglen chwaraeon flaenllaw ar lawr gwlad ac mae gennym ganolfannau chwaraeon sydd gyda'r gorau. Mae ein dull o ddatblygu chwaraeon dwy'r sectorau Preifat a Gwirfoddol wedi cael ei henwi gan y Beirniaid fel yr enghraifft orau yn Ewrop.

"Mae Caerdydd yn ddinas uchelgeisiol a bydd hyn yn hwb mawr nid yn unig i'n statws fel cyrchfan chwaraeon o bwys ond o ran tanlinellu ein hymrwymiad i chwaraeon fel dull o hybu iechyd a lles.



Dywedodd Aelod Gweithredol Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Nigel Howells: "Mae dyfarnu teitl Prifddinas Chwaraeon Ewrop i Gaerdydd yn cydnabod buddsoddiad y ddinas o ran amser ac arian i sefydlu strwythur chwaraeon llwyddiannus a'n hymroddiad ni i sicrhau chwaraeon sy'n hygyrch i bawb."

"Dylem deimlo balchder ein bod wedi cael ein cydnabod a chael ein cyffroi wrth i ni edrych ymlaen at ddyfodol cyfleoedd chwaraeon yn y brifddinas."

Dywedodd Llywydd Cymdeithas Prifddinasoedd Chwaraeon Ewrop, Gianfrancesco Lupattelli : "Mae Caerdydd yn ddinas ardderchog ag uchelgais gwirioneddol i ddefnyddio chwaraeon i wella a newid bywydau ei dinasyddion. Mae cysylltiad dilys yn bodoli rhwng datblygu cyfleusterau, digwyddiadau mawr a chwaraeon ysgol a chymuned ar lawr gwlad. Mae Caerdydd yn haeddu'r teitl a nawr gall y ddinas ymuno â rhwydwaith gynyddol o Brifddinasoedd a Dinasoedd yn Ewrop."

# Cyfle Cyflym

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnig y cyfle i bobl ifanc ennill sgiliau a chymwysterau newydd sy'n ymwneud â chynnal a chadw beiciau modur a rasio motorcross oddi-ar-y-ffordd, sef rasio beic modur ar drac caeëdig oddi-ar-y-ffordd.



Mae 'Foreshore MXC' yn broject cymunedol sy'n cael ei redeg gan y Cyngor mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru, Cymunedau'n Gyntaf a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Y nod yw darparu amgylchedd diogel dan reolaeth i bobl ifanc ddysgu a datblygu sgiliau newydd o ran gyrru a chynnal a chadw beiciau modur drwy ymarferion a hyfforddiant galwedigaethol.

Yn ogystal â'r dysgu ymarferol, mae ymgeiswyr hefyd yn dysgu sgiliau rhifedd a llythrennedd sy'n helpu gyda datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r holl weithgareddau yn cael eu hachredu gan Rwydwaith y Coleg Agored ac yn cael eu gweithredu gan hyfforddwyr cymwys a phrofiadol yr Auto Cycle Union.

Mae'r cwrs yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Hyfforddi 'Foreshore MXC', sy'n cynnwys y cyfleusterau pwrpasol diweddaraf gan gynnwys gweithdy, ystafell ddosbarth a thraciau beic oddi-ar-y-ffordd.

Am ragor o wybodaeth ewch i dudalen 'Foreshore MXC' ar Facebook:
www.facebook.com/foreshoremxc
Fel arall, ffoniwch Mark Thomas ar 02920 445900 neu 07814 544244.